


SECURITY ADVICE GUIDE

# Sheds & Outbuildings

These are often targeted by thieves as an easy option and they hold valuable items that can be easily sold on i.e. items such as bikes, mowers, power tools, garden tools and sporting equipment such as golf clubs. Research has shown that the average shed contents are valued between £1,500 and £5,000, making sheds easy pickings if insecure.

## Shed security can be improved with a few simple measures:

Don't make a burglar's job easier by leaving gardening tools lying around as these are often used to force entry into your home – a garden spade can do a lot of damage to a door or window in a short space of time. Remember most burglaries are committed at the rear of the home.

Security marking your tools and equipment using an SBD recognised forensic asset marking or etching kit is another highly effective and visible deterrent to thieves and an established method of reducing theft.

Depending on the quality and construction of your timber shed door, you have several options of securing it. If your shed is of a solid construction, minimum 44mm thick, you may be able to fit a mortice sash lock to BS3621 (https://www.securedbydesign.com/guidance/standards-explained/locks-associated-hardware)

SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU

**www.south-wales.police.uk**

2969-21

The alternative is an SBD approved hasp and staples that hide the fixings when closed. Use two – one fitted one-third up and one fitted one-third down the door.The hasp and staples should be coach bolted through the shed structure or secured with either security or non-return screws, sometimes referred to as clutch head screws. These are a special type of screw that once fitted can only be unscrewed with a special tool.

Wrap a security chain around and through the handles of garden tools, lawn mowers and cycles. Secure the chain to the wall using a purpose made shed shackle and padlock or a ground anchor fixed to the base of the shed. If using the latter, the shed will need a concrete base to secure the ground anchor.

If you have battery operated garden tools, store the batteries and chargers in the house away from your tools to make them less attractive to steal and less valuable to sell on.

Think about using a strong lockable box or cage within the shed in which you can securely store garden tools. Where possible, this feature should be securely fixed to a solid floor or structure to prevent easy removal.

Consider a specialist SBD approved steel storage unit. These can be used for bikes and garden equipment and come in a range of sizes.

Shed windows can be fitted with a weld mesh or a grille on the inside. If you don't use the window, another option is to screw it shut. Glass panes can be replaced with Perspex or Polycarbonate as a more secure alternative.

Keep items out of view with netting or consider a permanent spray-on frosting to the glass.

Consider a battery-operated shed alarm. They look low key but they respond to movement or door contact with an extremely loud siren. Please keep it out of the reach of young children.

Don't leave ladders outside or, if you have no alternative and have to, chain them up.

Check that you have adequate cover under your household insurance for theft from your garden and outbuildings.

**For further advice about any of the security tips listed above, or to find out how to buy police recognised security products, visit**

**www.securedbydesign.com**

SOUTH WALES
**POLICE**
**HEDDLU**
DE CYMRU



CYNGOR AR DDIOGELWCH

# Siediau a Thai Allan

Caiff y rhain yn aml eu targedu gan ladron fel opsiwn hawdd am fod pethau gwerthfawr ynddynt y gellir eu gwerthu'n hawdd, e.e. pethau fel beiciau, peiriannau torri gwair, offer pŵer, offer garddio ac offer chwaraeon fel clybiau golff. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cynnwys sied gyffredin yn werth rhwng £1,500 a £5,000, sy'n golygu helfa dda i leidr os nad yw wedi'i diogelu.

## Gellir diogelu sied yn well drwy roi rhai mesurau syml ar waith:

Peidiwch â gwneud pethau'n haws i leidr drwy adael offer garddio o gwmpas y lle oherwydd yn aml caiff y rhain eu defnyddio i dorri i mewn i'ch cartref – gall rhaw ardd wneud llawer o ddifrod i ddrws neu ffenestr mewn cyfnod byr.

Cofiwch y bydd y rhan fwyaf o achosion o fwrgleriaeth yn digwydd yng nghefn y cartref

Mae rhoi marc diogelwch ar eich offer a'ch cyfarpar gan ddefnyddio pecyn marcio neu ysgythru asedau fforensig a gydnabyddir gan SBD yn ffordd arall hynod effeithiol a gweladwy o atal lladron ac yn ddull sefydledig o leihau achosion o ddwyn.

Yn dibynnu ar ansawdd a saernïaeth drws eich sied bren, bydd gennych sawl opsiwn ar gyfer ei diogelu. Os yw eich sied yn gadarn ac o leiaf 44mm o drwch, efallai y gallwch osod clo mortais a sash yn unol â BS3621 (https://www.securedbydesign.com/guidance/standards-explained/locks-associated-hardware)

SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU

www.south-wales.police.uk

Y dewis arall yw cloeon hasbiau a styffylau a gymeradwyir gan SBD sy'n cuddio'r ffitiadau pan fydd ar gau. Defnyddiwch ddau glo – un tua thraean o'r ffordd i fyny ac un tua thraean o'r ffordd i lawr y drws. Dylid gosod yr hasbiau a'r styffylau'n sownd yn adeiledd y sied gan ddefnyddio bolltau coets neu sgriwiau diogelwch neu sgriwiau unffordd, a elwir weithiau'n sgriwiau 'clutch head'. Math arbennig o sgriwiau yw'r rhain y mae'n rhaid defnyddio offer arbennig i'w dadsgriwio ar ôl iddynt gael eu gosod.

Lapiwch gadwyn ddiogelwch am eich offer gardd, peiriannau torri gwair a beiciau, a thrwy'r carnau a'r cyrn hefyd. Clymwch y gadwyn yn sownd yn y wal gan ddefnyddio cyplyn a chlo clap pwrpasol ar gyfer sied neu angor daear sy'n sownd yng ngwaelod y sied. Os byddwch yn defnyddio angor, bydd angen i'r sied fod ar sylfaen o goncrit er mwyn rhoi'r angor yn sownd.

Os oes gennych offer gardd sy'n rhedeg ar fatri, storiwch y batris a'r gwefrwyr yn y tŷ i ffwrdd oddi wrth eich offer fel eu bod yn llai atyniadol i ladron ac yn llai gwerthfawr i'w gwerthu ymlaen.

Dylech ystyried defnyddio blwch neu gawell cloadwy a chryf yn y sied lle y gallwch storio offer gardd yn ddiogel. Lle bo modd, dylid gosod y blwch neu'r gawell yn sownd wrth lawr neu adeiledd solet fel nad yw'n hawdd ei ddwyn/ei dwyn.

Dylech ystyried defnyddio uned storio ddur arbenigol a gymeradwyir gan SBD. Gellir defnyddio'r rhain ar gyfer beiciau ac offer gardd, ac maent ar gael mewn amrywiaeth o feintiau.

Gellir gosod rhwyll wedi'i weldio neu ddellt ar y tu mewn i ffenestri'r sied. Os na fyddwch yn defnyddio'r ffenestr, opsiwn arall yw ei sgriwio ar gau. Gellir gosod persbecs neu bolycarbonad yn lle cwarelau gwydr fel dewis mwy diogel.

Dylech gadw eitemau o'r golwg gan ddefnyddio rhwydi neu ystyried chwistrellu effaith farugog barhaol ar y gwydr.

Dylech ystyried larwm sied sy'n rhedeg ar fatri. Maent yn edrych yn ddi-nod ond maent yn ymateb i symudiad neu gyswllt â'r drws drwy seinio seiren uchel iawn. Cadwch y larwm allan o gyrraedd plant bach.

Peidiwch â gadael ysgolion y tu allan neu, os na fydd dewis arall gennych, clymwch nhw'n sownd â chadwyni.

Sicrhewch fod gennych yswiriant digonol fel rhan o'ch yswiriant cartref ar gyfer dwyn o'ch gardd a'ch tai allan.


**I gael rhagor o gyngor ar unrhyw rai o'r awgrymiadau diogelwch sydd wedi'u rhestru uchod, neu i gael gwybod sut i brynu cynhyrchion diogelwch a gydnabyddir gan yr heddlu, ewch i**
**www.securedbydesign.com**

SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU



# Motorcycles & Scooters

Thousands of motorcycles, scooters and mopeds are stolen across the UK each year. Some motorcycles are stolen to order to be exported, others to be broken up for parts for re-sale.



A large number of bikes are left without much security. It takes seconds for a thief to steal a moped, scooter or motorcycle, if it is unprotected. It is advised that the motorcycle & scooter is locked, chained and covered to make them harder to steal.

## Police advice is to **LOCK, CHAIN, COVER**





### Lock

Use a disc lock to help secure the front brake disc, or a grip lock to secure the brake and throttle controls. You could also use a D lock on the front wheel to stop it being wheeled away. Making your motorcycle less of any easy option will reduce the chances of it being targeted. Combine the use of a disk lock and a chain lock attached to a ground anchor.



### Chain

Thieves often steal a bike by breaking the steering lock and wheeling it away. Use a chain lock through the back wheel (the front wheel can be removed). Secure your bike, with the lock taut to an immovable object such as a ground anchor or street furniture. This will stop thieves from cutting a lock trailing on the ground using an angle grinder. If this isn't possible, thread the chain through your bike frame and back wheel. Keeping the lock off the ground can prevent it being attacked and smashed.



### Cover

Thieves often 'shop' for particular bike models. Using a cover instantly makes it less attractive to them. A cover also provides another time consuming obstacle for the thief. Unfortunately security measures can't guarantee your bike won't be stolen but, by using multiple security measures, you can make it harder and less attractive for thieves.

For security products for your scooter, motorcycle or moped search our [‘Accredited products’ page.]

SOUTH WALES
**POLICE**
**HEDDLU**
DE CYMRU

**www.south-wales.police.uk**

2969-21

## Remove the keys

Thieves are often opportunists and will look for bikes that are quick and easy to steal first. Always use the steering lock and remove the ignition keys, even if you are close by or away for a few minutes. Never rely on just using your steering lock to secure your bike as thieves can break the steering lock and simply wheel the bike away.

## Fitting an alarm can be a deterrent to thieves

Consider fitting an SBD approved Thatcham-rated 1 or 2 alarm system with tracking, immobilisation, anti-grab and movement sensors that can help protect and trace your vehicle. A quality Thatcham approved, professionally fitted alarm system will not only put off thieves but could also reduce your insurance premiums.

## Fit a Tracking system

Tracker systems can increase the recovery of your motorcycle if it is stolen. Many systems are battery operated and activate once the motorcycle is stolen and track the motorcycle via GPS and other systems. SBD have several members which specialise in this area and can advise on the best system and fitting of the product for your motorcycle /scooter type.

## Spare Parts

Motorcycles and Scooters are often broken down for their parts for re-sale. The thieves remove any identifying marks, making it hard for the police to trace the property back to the original owner. Security marking your motorcycle or scooter using an SBD recognised forensic asset marking kit is another highly effective and established method of reducing theft. Trying to remove one of these forensic markers is very difficult and in many cases the police only need a trace amount to establish ownership and gain a conviction.

## When at home the best place to keep your motorcycle, moped or scooter is in your garage or shed

Fit a garage door defender or upgrade garage door locks. If you have a house alarm system consider connecting the garage. Shed alarms as well as low level dusk to dawn lighting will also enhance security. For further information about alarms please visit our SBD Alarm Advice Webpage.

Fitting a secure ground anchor also provides extra security. SBD approved motorcycle lockers are also available to store your motorcycle at home. Storing it out of view is one of the best ways to prevent opportunist theft.

## No shed or garage? Park in the safest place you can

Park it in an area near to your home where it is well overlooked with good lighting. If you have a drive, where possible, utilise it and support your motorcycle / scooter lock and chain, with a ground anchor. If your drive is supported with gates, close them at night to provide a further barrier for the opportunist thief.

## Installation of CCTV

CCTV can be a deterrent and help protect both your motorcycle and home. If you do decide to use CCTV it is important to read the Information Commissioners Office (ICO) advice on Domestic CCTV systems.

## Buying a new motorcycle or scooter

MCIA Secured is a rating scheme for new Powered Two Wheelers – 'PTW', which recognises the security features fitted on these types of vehicles. A maximum of five stars can be awarded to motorcycles of 125cc (or 11kW for Electric power) or over, or three stars for motorcycles up to 125cc/11kW and scooters.

mcia
Today's Industry. Tomorrow's Journeys

For more information of the scheme which is run by the Motor Cycle Industry Association Ltd (MCIA) and manufacturers taking part please visit the website **https://mcia.co.uk/en/mcia-secured**

**For further advice about any of the security tips listed above, or to find out how to buy police recognised security products, visit**

**www.securedbydesign.com**


SOUTH WALES
**POLICE**
**HEDDLU**
DE CYMRU



# Beiciau Modur a Sgwteri

Caiff miloedd o feiciau modur, sgwteri a mopedau eu dwyn ledled y DU bob blwyddyn. Bydd rhai beiciau modur yn cael eu dwyn er mwyn eu hallforio, ac eraill er mwyn eu datgymalu a gwerthu'r rhannau.

Caiff nifer mawr o feiciau eu gadael heb fawr ddim i'w diogelu. Dim ond eiliadau y mae'n ei gymryd i leidr ddwyn moped, sgwter neu feic modur, os nad yw wedi'i ddiogelu. Mae'n syniad da cloi'r beic modur neu'r sgwter, ei glymu'n sownd â chadwyn a rhoi gorchudd drosto fel ei bod yn anos ei ddwyn.



## Cyngor yr heddlu yw **CLO, CADWYN, GORCHUDD**



### Clo

Defnyddiwch glo disg i gloi'r disg brêc blaen, neu glo gafael i gloi rheolyddion y brêcs a'r sbardun. Gallech hefyd ddefnyddio clo D ar yr olwyn flaen er mwyn atal rhywun rhag rholio'r beic i ffwrdd. Bydd gwneud eich beic modur yn llai o opsiwn hawdd yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff ei dargedu. Defnyddiwch gyfuniad o glo disg a chlo cadwyn yn sownd wrth angor daear.

### Cadwyn

Bydd lladron yn aml yn dwyn beic drwy dorri'r clo llyw a'i rolio i ffwrdd. Defnyddiwch glo cadwyn drwy'r olwyn ôl (gellir datgysylltu'r olwyn flaen). Clowch eich beic drwy glymu'r clo yn dynn wrth wrthrych disymud fel angor daear neu gelfi stryd. Bydd hyn yn atal lladron rhag torri clo sy'n llusgo ar y ddaear gan ddefnyddio peiriant llifanu ongl. Os na fydd hyn yn bosibl, gwthiwch y gadwyn drwy ffrâm eich beic a'r olwyn ôl.

### Gorchudd

Bydd lladron yn aml yn 'siopa' am fodelau penodol o feic. Bydd defnyddio gorchudd yn ei wneud yn llai apelgar iddynt ar unwaith. Bydd gorchudd hefyd yn rhwystr arall sy'n mynd ag amser y lleidr. Yn anffodus, ni all mesurau diogelwch warantu na chaiff eich beic ei ddwyn ond, drwy ddefnyddio mwy nag un mesur diogelwch, gallwch wneud hynny'n anos ac yn llai apelgar i ladron.

I weld cynhyrchion diogelwch ar gyfer eich sgwter, beic modur neu foped, porwch drwy ein tudalen **'Accredited products'**

SOUTH WALES
**POLICE**
**HEDDLU**
DE CYMRU

**www.south-wales.police.uk**

## Tynnwch yr allweddi allan

Manteiswyr yw lladron yn aml, a byddant yn chwilio yn gyntaf am feiciau y gallant eu dwyn yn hawdd ac yn gyflym. Defnyddiwch y clo llyw bob amser a thynnwch yr allweddi allan, hyd yn oed os byddwch gerllaw neu os mai dim ond am ychydig funudau y byddwch i ffwrdd. Peidiwch byth â dibynnu ar ddefnyddio'r clo llyw yn unig i gadw eich beic yn ddiogel oherwydd gall lladron dorri'r clo llyw a rholio'r beic i ffwrdd.

## Gall gosod larwm atal lladron

Dylech ystyried gosod system larwm â sgôr Thatcham 1 neu 2 a gymeradwyir gan SBD a dyfeisiau tracio, llonyddu ac atal cipio a synwyryddion symudiad a all helpu i ddiogelu ac olrhain eich cerbyd. Nid yn unig y bydd system larwm o ansawdd a gymeradwyir gan Thatcham ac a osodwyd gan rywun proffesiynol yn anghymell lladron, ond gallai hefyd leihau eich premiymau yswiriant.

## Gosodwch System Tracio

Gall systemau tracio wella'r tebygolrwydd y caiff eich beic modur ei adfeddiannu os caiff ei ddwyn. Mae llawer o systemau'n rhedeg ar fatri, a byddant yn dechrau gweithio pan gaiff y beic modur ei ddwyn ac yn tracio'r beic modur gan ddefnyddio GPS a systemau eraill. Mae gan SBD sawl aelod sy'n arbenigo yn y maes hwn ac a all roi cyngor ar y system orau a'r ffordd orau o osod y cynnyrch ar gyfer y math o feic modur/sgwter sydd gennych.

## Rhannau Sbâr

Yn aml, caiff beiciau modur a sgwteri eu datgymalu er mwyn gwerthu eu rhannau. Bydd y lladron yn cael gwared ar unrhyw farciau y gellir eu defnyddio i adnabod y perchennog gwreiddiol, gan ei gwneud yn anodd i'r heddlu sicrhau y caiff ei ddychwelyd iddo. Mae rhoi marc diogelwch ar eich beic modur neu'ch sgwter gan ddefnyddio pecyn marcio asedau fforensig a gydnabyddir gan SBD yn ffordd arall hynod effeithiol a sefydledig o leihau achosion o ddwyn. Mae'n anodd iawn cael gwared ar y marciau fforensig hyn ac, mewn llawer o achosion, dim ond mymryn lleiaf o dystiolaeth y bydd ei angen ar yr heddlu er mwyn gwybod pwy yw'r perchennog a sicrhau euogfarn.

## Pan fyddwch gartref, y lle gorau i gadw eich beic modur, moped neu sgwter yw yn eich garej neu'ch sied

Gosodwch amddiffynnwr neu gloeon gwell ar ddrws eich garej. Os oes gennych system larwm tŷ, dylech ystyried ei chysylltu â'r garej. Bydd larymau sied a goleuadau lefel isel o wawr hyd fachlud hefyd yn cynnig diogelwch ychwanegol. I gael rhagor o wybodaeth am larymau, ewch i dudalen 'Alarm Advice' ar wefan SBD.

Mae gosod angor daear sefydlog hefyd yn cynnig mwy o ddiogelwch. Hefyd, mae loceri beiciau modur a gymeradwyir gan SBD ar gael er mwyn i chi storio eich beic modur gartref. Ei storio o'r golwg yw un o'r ffyrdd gorau o atal lladrata manteisgar.

## Dim sied na garej? Parciwch yn y lle mwyaf diogel posibl

Parciwch eich beic modur mewn lle sy'n agos at eich cartref ac sy'n cynnig gwyliadwriaeth a goleuadau da. Os oes dreif gennych, defnyddiwch ef lle bo modd a defnyddiwch angor daear i gynnal clo a chadwyn eich beic modur/sgwter. Os oes gatiau o flaen eich dreif, caewch nhw gyda'r nos er mwyn rhoi rhwystr arall i atal lladron manteisgar.

## Gosod system teledu cylch cyfyng

Gall teledu cylch cyfyng atal lladron a helpu i ddiogelu eich beic modur a'ch cartref. Os byddwch yn penderfynu defnyddio system teledu cylch cyfyng, mae'n bwysig darllen cyngor Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar systemau teledu cylch cyfyng domestig.

## Prynu beic modur neu sgwter newydd

Cynllun sgorio ar gyfer cerbydau modur dwy olwyn yw MCIA Secured, ac mae'n cydnabod y nodweddion diogelwch sydd wedi'u gosod ar y mathau hyn o gerbydau. Gellir rhoi hyd at bum seren i feiciau modur 125cc (neu 11kW ar gyfer rhai trydan) a throsodd, neu dair seren i feiciau modur hyd at 125cc/11kW a sgwteri.

mcia
Today's Industry. Tomorrow's Journeys

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, a gaiff ei gynnal gan Motor Cycle Industry Association Ltd (MCIA), a'r gwneuthurwyr sy'n cymryd rhan ynddo, ewch i'r wefan yn **https://mcia.co.uk/en/mcia-secured**

**I gael rhagor o gyngor ar unrhyw rai o'r awgrymiadau diogelwch sydd wedi'u rhestru uchod, neu i gael gwybod sut i brynu cynhyrchion diogelwch a gydnabyddir gan yr heddlu, ewch i**

**www.securedbydesign.com**

SOUTH WALES POLICE HEDDLU DE CYMRU